

❖ GWAHODDIAD

Anwylyd yng Nghrist, y Nadolig hwn boed yn bennaf llawenydd i ni glywed eto neges yr angylion, a mynd mewn meddwl a chalon i Fethlehem, a gweld y peth hwn a wnaethpwyd, a'r Baban yn gorwedd yn y preseb. Gadewch i ni felly ddarllen a gwrandao ar dystiolaeth yr Ysgrythur Sanctaidd i fwriadau cariadlon Duw tuag atom ni ei blant annheilwng, a llawenhau yn y carolau, a dathlu'r bywyd newydd a ddaeth i'n gafael trwy'r Baban hwn a anwyd er ein hiachawdwriaeth ni.

Ond yn gyntaf, gweddiwn dros anghenion yr holl fyd; am heddwch ar y ddaear ac ewylllys da ymhlith yr holl bobl; am gymod a chariad yn yr Eglwys y daeth ef i'w hadeiladu, ac ym mywyd ein cymdeithas yn y fro hon.

Ac oherwydd y byddai hyn yn llawenhau ei galon, gadewch i ni gofio yn ei enw, y tlawd a'r diymadferth, y newynog a'r gorthrymedig, yr afiach a'r rhai sy'n hiraethu, yr unig a'r rhai sydd heb neb i'w caru, yr hen a'r plant bychain, pawb nad adwaenant yr Arglwydd Iesu, a'r rhai nad ydynt yn ei garu.

Yn olaf, cofiwn gerbron Duw y rhai sy'n gorfoleddu gyda ni, ond ar draethell arall, ac mewn goleuni helaethach – ein hanwyliaid a aeth o'n blaen a fu farw yn y ffydd, a'r dyrfa fawr honno na all yr un dyn ei rhifo, y rhai yr oedd eu gobaith yn y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, a gyda hwy, yng Nghrist Iesu, yr ydym ni yn un byth mnwy.

Y mawl a'r gweddiâu hyn a offrymwn yn ostyngedig o flaen gorsedd nef yn y geiriau a ddysgodd Crist ei hun i ni: 'Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd...'

**Y rhagymadrodd i Wyl Naw Llith Naw Carol,
addas. Derwyn Morris Jones**